# Hybu’r gwaith o ddatblygu sgiliau magu plant

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn nodi'r gofynion wrth weithio â theuluoedd a fydd yn eu galluogi i gefnogi datblygiad, gofal a llesiant plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i’w helpu i ddatblygu hunanhyder yn eu rôl magu plant a chael gafael ar wybodaeth a chymorth. Mae hefyd yn cynnwys gweithio gyda theuluoedd mewn ffyrdd sy'n eu helpu i ymdeimlo â phlant yn gadarnhaol drwy weithgareddau chwarae a rhyngweithio.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i greu amgylchedd croesawgar a chynhwysol i deuluoedd
2. meithrin perthynas a defnyddio gwahanol ffyrdd o weithio i gyfathrebu mewn ffyrdd sy’n helpu teuluoedd i rannu eu meddyliau
3. dangos parch at brofiadau a safbwyntiau teuluoedd, gan sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi a'u clywed
4. cydnabod y gwahanol rolau y mae teuluoedd yn eu gwneud i gwrdd â’u hanghenion, a'u cefnogi i wneud hynny
5. cynnal dulliau parchus, seiliedig ar gryfderau, a diwylliannol gynhwysol wrth ryngweithio â theuluoedd bob tro
6. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i’w helpu i adnabod a magu hyder yn eu rôl o ran datblygiad, gofal a llesiant plant a phobl ifanc
7. gweithio â theuluoedd i nodi meysydd lle mae angen arweiniad a strategaethau arnynt
8. gweithio mewn partneriaeth ag eraill i gynnig strategaethau magu plant ymarferol i deuluoedd sydd wedi’u teilwra i anghenion plant neu bobl ifanc
9. rhoi gwybodaeth i deuluoedd am y cymorth, yr adnoddau, y gwasanaethau a’r cyfleusterau sydd ar gael ar gyfer datblygu sgiliau magu plant
10. cynnwys teuluoedd yn y gwaith o nodi ac asesu datblygiad plant neu bobl ifanc, gan gydnabod bod eu gwybodaeth yn rhan allweddol o'r broses hon
11. rhoi gwybodaeth hygyrch i deuluoedd am yr hyn y gallent ei ddisgwyl wrth i blant neu bobl ifanc ddatblygu
12. cefnogi teuluoedd i osod disgwyliadau realistig o ran datblygiad ac ymddygiad plant neu bobl ifanc
13. annog teuluoedd i gydnabod a gwerthfawrogi cryfderau, sgiliau a galluoedd unigryw plant neu bobl ifanc
14. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd i ystyried sut mae anogaeth ac atgyfnerthiad cadarnhaol yn helpu plant neu bobl ifanc i deimlo’n ddiogel ac yn hyderus
15. rhannu strategaethau magu plant ymarferol â theuluoedd i gefnogi ymddygiad cadarnhaol, llesiant emosiynol ac ymdeimlad o ddiogelwch
16. tynnu sylw at bwysigrwydd arferion dyddiol o ran cefnogi llesiant a datblygiad plant

17. annog teuluoedd i gynnwys plant neu bobl ifanc wrth wneud penderfyniadau mewn ffyrdd sy'n adlewyrchu eu hoedran a’u galluoedd
18. cefnogi teuluoedd i ddeall pwysigrwydd cadw addewidion a glynu at ymrwymiadau a wnaed i blant neu bobl ifanc
19. gweithio gyda theuluoedd i archwilio sut y gall eu hymddygiad a'u hemosiynau ddylanwadu ar ymddygiad a rheoleiddio emosiynol plant neu bobl ifanc
20. adnabod ac atgyfnerthu rhyngweithiadau cadarnhaol rhwng teuluoedd a phlant neu bobl ifanc
21. gweithio mewn partneriaeth â theuluoedd ac eraill i fyfyrio ar newidiadau mewn ymddygiad a chynnydd, dathlu llwyddiannau a mynd i’r afael â heriau
22. trafod â theuluoedd rôl chwarae a rhyngweithiadau cadarnhaol o ran datblygiad, gofal a gallu plant neu bobl ifanc i ddysgu
23. cefnogi plant neu bobl ifanc a theuluoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o brofiadau chwarae, gan archwilio ffyrdd o wneud amser ar gyfer profiadau a rhyngweithiadau a rennir i fagu hyder i gefnogi cyfleoedd i chwarae gartref
24. cefnogi teuluoedd i nodi cyfleoedd chwarae o fewn arferion bob dydd sy'n cryfhau perthnasoedd a’r gallu i gyfathrebu â phlant neu bobl ifanc
25. cwblhau’r cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i hybu’r gwaith o ddatblygu sgiliau magu plant
26. myfyrio ar sut y gwnaethoch chi gyflawni eich rolau a'ch cyfrifoldebau i hybu’r gwaith o ddatblygu sgiliau magu plant

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. rôl magu plant a pherthynas deuluol o ran cefnogi datblygiad iach plant a phobl ifanc
2. natur a strwythur amrywiol teuluoedd, gan gynnwys cyd-destunau diwylliannol a chefndirol gwahanol, a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar ffyrdd o fagu plant a deinameg teulu
3. y ffactorau cymdeithasol, corfforol ac economaidd sy'n effeithio ar ddatblygu sgiliau magu plant
4. y gwahanol newidiadau y gallai plant neu bobl ifanc fynd drwyddynt a sut y mae’r rhain yn effeithio ar eu datblygiad a’u llesiant
5. strategaethau ar gyfer sefydlu a datblygu perthynas agored o ymddiriedaeth gyda theuluoedd, gan sicrhau ymgysylltiad parchus ac ystyrlon
6. dulliau ar gyfer hwyluso cynnwys teuluoedd yn y gwaith o asesu anghenion a datblygiad plant a phobl ifanc
7. ffyrdd o greu amgylcheddau croesawgar a chynhwysol lle gall teuluoedd drafod eu heriau a'u pryderon
8. pwysigrwydd urddas, caredigrwydd a thosturi wrth ymwneud â theuluoedd
9. sut mae cefnogi rheoleiddio emosiynol yn ystod y gwaith o ddatblygu sgiliau magu plant
10. technegau ar gyfer dangos agweddau anfeirniadol pan fydd teuluoedd yn mynegi rhwystredigaeth neu emosiynau negyddol
11. sut mae defnyddio egwyddorion sy'n ystyriol o drawma i gefnogi teuluoedd â’r gwaith o ddatblygu sgiliau magu plant
12. y cysylltiad rhwng disgwyliadau'r teulu, profiadau yn ystod plentyndod, a'u dealltwriaeth o ddatblygiad plant, a sut y mae hyn yn dylanwadu ar y ffordd maent yn magu plant
13. dylanwad niwrowahaniaeth ac anghenion ychwanegol ar lesiant a datblygiad plant a phobl ifanc
14. dulliau ar gyfer cefnogi teuluoedd i adnabod a gwerthfawrogi nodweddion, cryfderau a galluoedd unigryw plant a phobl ifanc, ac atgyfnerthu agweddau cadarnhaol ar y berthynas rhwng rhieni a phlant
15. sut mae cefnogi teuluoedd i adnabod ymddygiad fel ffordd o gyfathrebu
16. y cysylltiad rhwng chwarae, dysgu a datblygu, a sut i gyfleu'r wybodaeth hon yn effeithiol i deuluoedd er mwyn annog cyfranogiad gweithredol a rhyngweithiadau

ymatebol wrth chwarae
17. strategaethau ar gyfer annog teuluoedd i ddarparu amrywiaeth o fannau, profiadau a rhyngweithiadau sy'n herio stereoteipiau
18. sut y mae hyder i fagu plant yn gadarnhaol yn effeithio ar ddatblygiad a dyheadau teuluoedd
19. yr adnoddau, y gwasanaethau a'r cyfleusterau sydd ar gael i gefnogi teuluoedd a phlant a phobl ifanc, a sut i gyfeirio teuluoedd at yr wybodaeth berthnasol
20. sut mae defnyddio dyfeisiau ac adnoddau digidol i hybu’r gwaith o ddatblygu sgiliau magu plant
21. y cofnodion a’r adroddiadau sydd eu hangen i hybu’r gwaith o ddatblygu sgiliau magu plant
22. theorïau sy’n berthnasol i ddatblygu sgiliau magu plant
23. y gofynion cyfreithiol, y safonau ymarfer, y fframweithiau a’r canllawiau perthnasol ar gyfer hybu’r gwaith o ddatblygu sgiliau magu plant
24. gofynion y gweithle mewn perthynas â chydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a hawliau wrth hybu’r gwaith o ddatblygu sgiliau magu plant
25. sut mae eich profiadau personol a'ch rhagfarn ddiarwybod yn gallu effeithio wrth hybu’r gwaith o ddatblygu sgiliau magu plant, a sut i fynd i'r afael â hyn
26. rôl goruchwyliaeth, ymarfer myfyriol, a dysgu a datblygu wrth hybu’r gwaith o ddatblygu sgiliau magu plant

## Geirfa

Mae'r eirfa ar gyfer y Safon Alwedigaethol Genedlaethol hon ar gael ar wefan Sgiliau Gofal a Datblygu.

# Hybu'r gwaith o ddatblygu sgiliau magu plant

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Skills for Care & Development |
| **Fersiwn rhif** | 1 |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2026 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2031 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Skills for Care and Development |
| **RCU gwreiddiol** | HSCCLD348 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant |
| **Cyfres/Set** | Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |
| **Geiriau Allweddol** | Sgiliau Magu Plant, Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant, Dysgu a Datblygu |